Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Ffrindiau Bach Tegryn**

**Canolfan Tegryn**
**Aberporth**
**SA43 2EN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ffrindiau Bach Tegryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfeydd Cymru Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Hydref 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn hapus ac wedi setlo. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n dda er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a chadarnhaol er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd diogel, glân a chartrefol. Mae'r amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol i oedran y plant. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau i'r plant wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff gofal yn mynychu hyfforddiant ac yn cael cyfleoedd datblygu. Maent yn rheoli'r prosesau recriwtio yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r staff gofal yn effeithiol ac yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r partneriaethau'n dda iawn. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r lleoliad yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'r meysydd sydd wedi'u hamlygu fel rhai i'w datblygu wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn uchel eu cymhelliant ac yn dewis sut maent am dreulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn awyddus i rannu eu syniadau. Maent yn ateb cwestiynau ac yn siarad â'r staff gofal. Maent yn gwybod bod eu teimladau'n cael eu hystyried wrth iddynt fwynhau sgwrsio â'r staff gofal am eu bywyd cartref a'u cynnwys yn eu chwarae.

Caiff y plant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn gyfarwydd â'u trefn dyddiol. Er enghraifft, maent yn gwybod bod cân benodol yn arwydd ei bod hi'n amser tacluso. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff gofal ac maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt, yn ogystal ag ar eu gliniau, yn ystod amser gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff gofal am dawelwch meddwl neu gysur pan fydd angen. Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau; maent yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser bwyd ac amser chwarae, gan wenu a chwerthin yn aml wrth iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau llenwi cynwysyddion â meintiau gwahanol o reis, gan ddod o hyd i feintiau mawr a bach. Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, ac maent yn hyderus wrth gydweithredu, cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, gwelsom blant yn cymryd eu tro wrth chwarae gyda'r blociau adeiladu.

Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn penderfynu drostynt eu hunain pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a sut i gwblhau tasg. Er enghraifft, penderfynodd y plant yr hoffent ddefnyddio'r chwyddwydrau i edrych yn fanwl ar y grawn o reis. Anogir annibyniaeth y plant yn gyson, yn enwedig yn ystod amser byrbryd ac wrth baratoi i chwarae yn yr awyr agored. Gall y plant gael gafael ar eu heitemau personol a'u dychwelyd yn annibynnol i'w pegiau eu hunain sydd wedi'u labelu.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac yn cael hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, roedd rhai plant yn mwynhau reidio'r beiciau yn yr awyr agored wrth weiddi “*wwwiii, ding ding, beep beep*”. Wrth i eraill fwynhau chwarae dan do yn archwilio'r byd bach a'r ardal chwarae rôl.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn nodi risgiau ac yn gweithredu ar eu rheoli. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau amddiffyn plant. Mae'r staff gofal yn dilyn arferion glanhau a hylendid cadarn, er enghraifft, drwy wisgo ffedogau a menig yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Mae cyfleusterau newid cewynnau priodol ar gael ac mae'r staff gofal yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith.

Mae'r staff gofal yn canmol y plant yn briodol, er enghraifft am gyfrif yn dda, drwy ddweud *"Waw, ardderchog!"* . Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith yn ôl yr angen. Maent yn delio ag unrhyw ddadlau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, gwelsom y staff gofal yn canmol y plant yn gyson pan oeddent yn ymddwyn yn dda ac yn ailgyfeirio'r plant at weithgaredd arall os oedd unrhyw anghytundebau bach. Roedd y staff gofal yn dangos esiampl o foesau da drwy gydol y sesiwn ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant pan oeddent yn efelychu'r ymddygiad hwn. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r staff gofal yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant ac maent yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion unigol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant ac maent yn fodelau rôl dda. Mae gan bron pob aelod o'r staff gofal ddealltwriaeth dda o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i oedran y plant. Maent yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sefydlu dull cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru a sut y gallant nodi camau nesaf y plant ac adolygu cynnydd yn rheolaidd. Maent yn darparu gofal a chyfleoedd addas i blant ag anghenion ychwanegol, ac yn darparu ar eu cyfer drwy weithio ar y cyd ag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant a'r teuluoedd ymhellach. Mae enghreifftiau da o gyfathrebu effeithiol rhwng y staff gofal a'r rhieni / gofalwyr am fod gofynion unigol y plant gael eu hystyried a'u parchu.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn darparu amgylchedd diogel sydd mewn cyflwr da iawn, y tu mewn a'r tu allan. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn gynnes ac yn gartrefol ac mae arferion hylendid clir ar waith. Mae'r lleoliad mewn cyflwr da gyda systemau gwresogi ac awyru da. Mae mynedfeydd ac allanfeydd clir yn ogystal â llwybrau dianc rhag tân a mannau cyfarfod. Mae tystiolaeth ddogfennol a ffotograffig i'w gweld yn y brif dderbynfa, sy'n dangos gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau lefel uchel o ofal.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg trylwyr ac effeithiol ar gyfer gweithgareddau a meysydd. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser ac mae'r ymarferwyr yn deall lefelau risg ac yn gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae gan y lleoliad gegin llawn adnoddau sydd ar wahân i'r ardal chwarae ac sy'n cynnig bwydlen byrbryd maethlon. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Caiff gwiriadau cynnal a chadw eu diweddaru a chawsant eu rhannu ag AGC yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cynnal ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff gofal yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do o safon dda iawn er mwyn i'r plant symud o gwmpas a dewis gweithgareddau yn rhydd. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio yn rheolaidd gyda'r plant yn cael ei defnyddio pryd bynnag yr hoffent. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n ysgogi chwilfrydedd a diddordeb y plant. Ceir adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau gwahanol ac amrywiaeth. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt yn annibynnol.

Mae'r staff gofal yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant, ac mae toiledau ar gael y tu allan i'r amgylchedd chwarae dynodedig, lle gall y plant ddatblygu eu hannibyniaeth, dan oruchwyliaeth y staff gofal. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael bob amser er mwyn golchi dwylo'n drylwyr. Mae'r staff gofal yn dathlu gwaith y plant drwy arddangos eu gwaith crefft a'u gwaith paentio o amgylch y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae arddangosfeydd sy'n dangos geirfa Gymraeg. Mae'r lleoliad yn addas ar gyfer chwarae a dysgu'r plant, ac mae'r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau. Mae'r dodrefn, fel byrddau a chadeiriau isel, yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r amgylchedd yn olau ac yn agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad â'r staff gofal yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd. Mae eu datganiad o ddiben yn adlewyrchu arfer cyfredol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Maent yn ymgorffori eu polisïau a'u gweithdrefnau'n llwyddiannus ac yn sicrhau y caiff y staff gofal eu dyrannu a'u trefnu'n dda er mwyn cynnal cymarebau staffio diogel a diwallu anghenion y plant yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli eu staff yn dda, ac mae ethos gweithio hapus a chyfeillgar rhwng y staff. Mae'r staff gofal yn canmol eu cydweithwyr ac yn teimlo bod y lleoliad fel uned deuluol. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Cadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a bod polisi drws agored os bydd unrhyw faterion yn codi. Mae gan y staff gofal wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); sy'n dangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith a bod proses sefydlu drylwyr yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, nid yw rheoli perfformiad bob amser yn effeithiol. Nid yw pob aelod o'r staff gofal wedi cael eu goruchwyliadau neu eu harfarniadau wedi'u cwblhau'n rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diweddaru cofnodion yn llwyddiannus. Maent yn cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a sefydliadau proffesiynol eraill mewn modd proffesiynol ac amserol. Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cael y gofal mwyaf priodol iddynt, gan gynnwys contractau a chaniatâd y rhieni. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol y plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn bwrpasol ac yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r rheini, y staff, y plant a gweithwyr proffesiynol eraill wrth lunio eu hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Defnyddir eu hadborth i bennu targedau a nodau er mwyn sicrhau y caiff y lleoliad ei redeg yn effeithiol yn y dyfodol.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Parhau i geisio cyngor a chymorth i fewnblannu'r dull cynllunio ac arsylwi yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r staff yn cael arfarniad blynyddol na chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniadau blynyddol. | Newydd |
| 16 | Rheoliad 16 | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/04/2023